

## Pam wnaethon ni eich dewis chi?

Gan nad oes modd gofyn i bawb gymryd rhan yn yr arolwg, rydym yn dewis sampl o gyfeiriadau i gynrychioli'r wlad gyfan. Bydd un person 16 oed neu'n hŷn o bob cyfeiriad yn cael ei ddewis i gymryd rhan. Mae'ch cyfeiriad chi yn un o'r rhain a chafodd ei ddewis ar hap o restr o gyfeiriadau preifat a gedwir gan y Post Brenhinol. Unwaith y bydd cyfeiriad wedi'i ddewis ar gyfer yr astudiaeth, ni allwn ei ddisodli â chyfeiriad arall. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n dibynnu ar ewyllys da'r rhai sydd wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn yr arolwg.

## Oes rhaid i fi gymryd rhan?

Nid oes rhaid i unrhyw un gymryd rhan os nad ydyn nhw eisiau gwneud hynny, ond er mwyn i ni beintio llun cywir o'n cymdeithas, mae'n hanfodol ein bod ni'n cyfweld â chymaint o bobl â phosib, o bob cefndir ac a ydych chi wedi profi unrhyw drosedd ai peidio. Mae ein gwaith yn bwysig iawn ac mae angen eich help arnom i wneud ein hastudiaethau yn llwyddiannus. Bob blwyddyn mae tua 31,000 o bobl yn ein helpu dwy gymryd rhan yn yr arolwg.

## Beth mae angen ichi ei wneud?

Does dim angen ichi wneud dim byd nawr. Bydd cyfwelwr yn dod i'ch cyfeiriad chi i ofyn ichi gymryd rhan yn yr arolwg.




## A yw'r wybodaeth a roddaf yn gyfrinachol?

Ydy. Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei thrin yn gyfrinachol yn unol â chyfarwyddyd y Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol. **(https://code.statisticsauthority.gov.uk)** Fe'i defnyddir i gynhyrchu ystadegau na fydd yn eich adnabod chi nac unrhyw un yn eich cartref. Mae'r holl ystadegau o'r fath a gynhyrchir yn ddarostyngedig i'r Cod a chymhwysir yr un safonau amddiffyn i'ch gwybodaeth bob amser.

## Ble mae cael rhagor o wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys manylion am y mathau o gwestiynau sy'n cael eu gofyn, ar gael ar-lein yn **www.crimesurvey.co.uk/cy.**

Os hoff ech siarad â rhywun am yr arolwg, gallwch ff onio'n llinell wybodaeth am yr Arolwg Troseddau **0800 051 0882.**

I weld Polisi Preifatrwydd yr Arolwg Trosedd, ewch i **www.crimesurvey.co.uk/cy/SurveyPrivacyPolicy.html** neu gallwch ff onio'n llinell wybodaeth Os hoff ech gael rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Ystadegau Gwladol neu amArolwg Troseddau Cymru a Lloegr, cysylltwch â:

**Crime Statistics and Analysis Team**
Office for National Statistics

Segensworth Road
Titchfield, Fareham
Hampshire
PO15 5RR

Diolch i chi am eich help!




Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr

# Pam mae'ch help yn bwysig

Swyddfa Gartref

6. CSEW 2026-27 (CAPI) Adult Crime Survey Leaflet v2 - WELSH

verian

Office for National Statistics



## Mae’r daflen hon yn ateb rhai o’r cwestiynau a all fod gennych am gymryd rhan yn yr arolwg.

## Pwy ydyn ni?

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gyfrifol am gasglu a chyhoeddi ystod eang o ystadegau swyddogol sy’n rhoi gwybodaeth i’r senedd, y cyfryngau a’r cyhoedd yn ehangach am waith y llywodraeth. Mae’r rhain yn cynnwys yr ystadegau misol am ddiweithdra a chwyddiant yn y Deyrnas Unedig, yr ystadegau chwarterol ar droseddau yng Nghymru a Lloegr, yr arolwg haint Covid-19 a’r Cyfrifiad o’r Boblogaeth bob deng mlynedd yng Nghymru a Lloegr. Mae Verian yn asiantaeth annibynnol sy’n arbenigo mewn ymchwil gymdeithasol. Maent yn ymgymryd â chyfweliadau ymchwil cymdeithasol, gan weithio i ystod eang o adrannau'r llywodraeth.

## Beth yw Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW)?

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn mesur y troseddau yng Nghymru a Lloegr drwy holi pobl, fel chithau, am y troseddau y gallech chi neu’ch aelwyd fod wedi’u profi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn cofnodi troseddau sydd o bosibl heb eu riportio i’r heddlu, felly mae’n cael ei ddefnyddio yn ddewis arall yn lle adroddiadau’r heddlu. Heb yr Arolwg Troseddau, fyddai ddim gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref a gweddill y Llywodraeth am y troseddau hyn sydd heb eu riportio. Mae’r Swyddfa Gartref yn defnyddio’r arolwg i helpu i ddatblygu polisïau ac i fonitro barn y cyhoedd mewn meysydd fel atal troseddau, dedfrydau a mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Pam bod rhaid gofyn cwestiynau personol?

Rydym yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau amdanoch chi, fel eich oedran, eich rhyw, eich ethnigrwydd a’ch statws gweithio. Mae hyn yn caniatáu i’n cleientiaid ddadansoddi safbwyntiau a phrofiadau gwahanol grwpiau mewn cymdeithas.

**Mae’ch atebion a’ch barn yn bwysig iawn i ni, p’un a ydych chi wedi cael profiad o unrhyw droseddau neu beidio.**

## Am beth fyddwch chi’n holi?

Yn ogystal â mesur y troseddau a brofwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn cynnwys cwestiynau am y canlynol hefyd:

- Risg troseddau - mae adnabod y rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf o droseddau yn bwysig o ran dylunio rhaglenni i atal troseddau.
- Eich agweddau at droseddau a’r System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys yr heddlu a’r llysoedd.
- Eich profiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut mae hyn wedi effeithio ar eich ansawdd bywyd.

## Pwy sy’n defnyddio’r canlyniadau?

Y Swyddfa Gartref yw prif ddefnyddwyr yr arolwg hwn ond caiff y data eu defnyddio hefyd gan adrannau eraill y Llywodraeth, ymchwilwyr cymeradwy, yr heddlu a throseddegwyr.

## Ble gallwch chi weld y canlyniadau?

Mae'r canlyniadau ar gael yn www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice, neu drwy ddefnyddio'ch ffôn clyfar i sganio'r cod QR:

## Beth yw ymchwil cymdeithasol?



Mae’r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn cynnal ymchwil am lawer o wahanol resymau, gan gynnwys:

- Canfod barn unigolion am wasanaethau, polisïau neu amodau cymdeithasol presennol
- Helpu i ddatblygu polisïau neu wasanaethau newydd ar gyfer bywyd bob dydd
- Edrych am batrymau ac agweddau sy’n newid mewn cymdeithas
- Asesu eff aith ymgyrchoedd hysbysebu neu wybodaeth



## Pam mae’r arolwg hwn yn bwysig?

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr hefyd yn cael ei ddefnyddio:

- i ddeall profiadau pobl o ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut mae hyn wedi effeithio ar eu hansawdd bywyd.
- i ddarogan y rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf o d oseddau er mwyn helpu i ddylunio rhaglenni i atal troseddau.

Mae gwybodaeth yr Arolwg Troseddu a ddarperir gennych yn helpu i lywio polisïau i leihau trosedd ac effaith trosedd ar gymunedau. Er enghraifft, mae’r Arolwg Troseddau wedi tanlinellu bod y risg o droseddau ceir yn uwch pan gaiff car ei barcio mewn maes parcio ac mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio’n fwy ar fesurau diogelwch mewn meysydd parcio.

## Amcangyfrifon cyffredinol trosedd

Yn ôl amcangyfrifon CSEW ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, profodd oedolion 16 mlwydd oed a throsodd 9.4 miliwn o droseddau. Twyll, dwyn a chamddefnydd cyfrifiaduron oedd y mwyafrif o droseddau gan fod 4.2 miliwn achos o dwyll, 2.8 miliwn achos o ddwyn a 692,000 achos o gamddefnyddio cyfrifiadur.

**9.4miliwn** o droseddau i gyd

**4.2miliwn** o droseddau twyll

## Tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd



Ni phrofodd tua 8 o bob 10 oedolyn unrhyw un o’r troseddau y gofynnwyd amdanynt yn yr Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (megis twyll, dwyn yn ymwneud â cherbyd, difrod troseddol, troseddau treisgar, camddefnydd cyfrifiaduron). Roedd y tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd yn amrywio yn ôl y math o drosedd, gyda bod yn ddioddefwr twyll yn fwyaf tebygol (7%), wedi’i ddilyn gan ddwyn yn ymwneud â cherbyd (5%).

**7%** tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr twyll

**5%** tebygolrwydd o ddwyn yn ymwneud â cherbyd

verian

Swyddfa Gartref

Office for National Statistics